**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 28 Hydref 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| K M Griffiths | Y V Jardine | S M Jones |
| D W W Thomas | E T Kirchner | W G Lewis |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| E King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

---

1 **Cadarnhau Cynullydd**

Cadarnhawyd Paxton Hood-Williams yn Gynullydd y Panel.

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgeliadau o fudd – Mike Durke

3 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

4 **Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

5 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

6 **Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad Dilynol o Drefniadau Diogelu Corfforaethol - Plant, yng Nghyngor Abertawe**

Rhoddodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol wybodaeth i'r Panel am argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Pwyntiau i'w trafod:

- Holodd y Panel ynghylch y cysylltiad ag Addysg o ran diogelu. Fe'u hysbyswyd bod y pandemig wedi cyflymu gwella'r berthynas ag Addysg. Mae'r Adrannau'n cyfarfod yn wythnosol i flaenoriaethu'r plant y maent yn poeni fwyaf amdanynt er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.
- O ran y cynllun gweithredu, mae llinell amser wedi'i threfnu ar gyfer yr ychydig eitemau cyntaf yn unig. Mae effaith y pandemig wedi golygu canolbwyntio ar reoli'r argyfwng tymor byr. Bu'n rhaid gohirio rhywfaint o waith ond bydd y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn parhau i oruchwylio'r rhaglen, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cadw plant ac oedolion yn ddiogel yn y cyfamser. Gellir cyfeirio unrhyw awgrymiadau gan y Panel at y Grŵp Diogelu Corfforaethol.
- Eglurwyd bod Grŵp Diogelu Corfforaethol sy'n goruchwylio gwaith diogelu corfforaethol. Ceir Hefyd Fwrdd Diogelu Rhanbarthol, sef bwrdd hollgyffredinol yr ardal. Awgrymwyd y dylai'r panel gael diweddariad gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i roi adborth ffurfiol ar sut mae trefniadau rhanbarthol yn gweithio. Cytunodd y Panel i ychwanegu hyn at raglen waith y flwyddyn nesaf.
- O ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), dan gynigion ar gyfer gwella, fe'u hysbyswyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi bod yn edrych i weld a oes trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwiriadau'r GDG. Mae ganddynt bryderon mawr a daw adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y misoedd nesaf.
- Cododd y Panel ymholiadau ynghylch pa mor aml y mae angen gwiriadau'r GDG, os cânt eu gwneud cyn i'r staff ddechrau a sawl un y mae pob person i fod i'w gael. Os oes gan aelodau'r panel unrhyw faterion sy'n weddill y maent am gael sicrwydd yn eu cylch, dylent lunio rhestr a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi dosbarthu dolen i Gynghorwyr i gwblhau hyfforddiant diogelu. Awgrymir y dylai pob Cynghorydd gwblhau hyn, er mwyn gosod esiampl i weddill y cyngor.
- Ceisir eglurder gan y Panel ynghylch cydweithio o amgylch y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth i Oedolion o ran cam-drin domestig. (cytunwyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod i'w gynnwys mewn eitem rhaglen waith.)
- Cymeradwyodd y Panel y casgliadau a'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu 'Diweddariad gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar sut mae trefniadau rhanbarthol yn gweithio' at y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.
- Llunio rhestr o unrhyw faterion sy'n weddill o ran gwiriadau'r GDG a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

7 **Rhaglen Waith Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2020-21**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith ddrafft a chytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bydd eitem ar *Mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod*, *Domestig SAC* yn cynnwys sesiwn friffio ar y cynnydd mewn trais domestig dros gyfnod y pandemig a dadansoddiad o'r cydweithio rhwng y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau i Oedolion o ran cam-drin domestig. Caiff aelodau'r panel Gwasanaethau i Oedolion eu gwahodd ar gyfer yr eitem hon.
- Trefnir cyfarfod rhwng Aelod o'r Cabinet, Pennaeth y Gwasanaeth a Chynullydd y Panel i drafod amserlennu eitemau yn y dyfodol ac effaith y pandemig, er mwyn helpu i lunio rhaglen waith yn y dyfodol.
- Bydd cadeiryddion y panel Gwasanaethau i Oedolion a'r panel Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn edrych ar gynlluniau gwaith i nodi cyfleoedd i unrhyw eitemau fynd i gyfarfodydd ar y cyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm